# HUGHES, JOHN (1791 -?), cerddor

**Enw:** John Hughes
**Dyddiad geni:** 1791
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cerddor
**Maes gweithgaredd:** Eisteddfod; Cerddoriaeth; Perfformio
**Awdur:** Robert David Griffith

Gwasanaethai yng ngwesty'r Wynnstay Arms, Wrecsam, ym more ei oes. Hoffai gerddoriaeth, dysgodd ganu amryw offerynnau cerdd, a phenodwyd ef yn arweinydd seindorf catrawd filwrol sir Ddinbych. Yn eisteddfod Wrecsam, 1820, enillodd wobr am 'Yr amrywiaeth gorau o un o Geingciau Cymru.' Yn eisteddfod y Fenni, 1838, enillodd y wobr a thlws am yr erddygan Gymreig orau. Yn 1840 yn eisteddfod Lerpwl dyfarnwyd ef yn orau am amrywiaethau ar yr alaw ' Dynwared yr Eos.' Ceir ' Llanciau Eryri ' o'i waith wedi ei gyhoeddi yn y *Gyfres Gerddorol*.

## Awdur

**Robert David Griffith**, (1877 - 1958)

## Ffynonellau


M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20821430


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu